



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

{Gweithredu'n Lleol}

Fframwaith ar gyfer hwyluso cynllunio iaith micro
ymysg cymdogaethau Cymraeg



{Cynnwys}

3	1.0 Cyflwyniad
5	2.0 Nod ac amcanion
	2.1 Nod
	2.2 Amcanion
	2.3 Gorolwg o'r fframwaith
7	3.0 Diffinio cymdogaeth
11	4.0 Sefydlu Grŵp Gweithredu
15	5.0 Casglu gwybodaeth gefndirol
	5.1 Llunio proffil o'r gymuned leol
	5.2 Y cefndir polisi
	5.3 Gwybodaeth leol gadarn
	5.4 Creu proffil cefndirol
21	6.0 Defnyddio'r fframwaith
	6.1 Gorolwg
	6.2 Bwrw ati
25	7.0 Gweithredu'n gynhwysol
27	8.0 Monitro a gwerthuso
	8.1 Y cylch cynllunio
	8.2 Adolygu
	8.3 Y cofnod electronig
	Y fframwaith
29	Agwedd 1: Bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol
32	Agwedd 2: Trosglwyddo iaith a'r blynyddoedd cynnar
35	Agwedd 3: Addysg ffurfiol ac anffurfiol
38	Agwedd 4: Demograffeg y gymraeg
41	Agwedd 5: Yr economi, gwasanaethau ac is-adeiledd
46	Adnoddau electronig (Cymraeg a Saeseng)



{Cyflwyniad}

Diben cymdeithasol sydd i iaith. Cynnyrch cymdeithasol ydyw. Mae pob cymdeithas yn atgynhyrchu a defnyddio ei hiaith neu ei hieithoedd at ddibenion penodol.

Yn gyffredinol, i ffynnu neu i oroesi mae angen i iaith gael ei defnyddio mewn cynifer o beuoedd cymdeithasol â phosibl. Y mwyaf eang, aml ac arbenigol y defnydd a wneir ohoni, y mwyaf fo'r bri a'r statws o roddir iddi – a'r mwyaf o ddefnydd a wneir ohoni yn sgil hynny. Bri, statws a defnydd sy'n rhoi grym i iaith. Mae'r grym hynny, gan amlaf, yn gysylltiedig â dylanwad a grym gwleidyddol ac economaidd ei siaradwyr fel grŵp cymdeithasol.

Mae'n hysbys fod y defnydd a wnaed o'r Gymraeg wedi ei chyfyngu dros y canrifoedd mewn perthynas â'r wladwriaeth Brydeinig. Grŵp ieithyddol di-rym fu siaradwyr Cymraeg drwy'r canrifoedd. Collodd y Gymraeg ei statws a'i bri ym mheuoedd cyhoeddus cymdeithas – byd masnach, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r Gyfraith. Fodd bynnag, llwyddodd i oroesi hyd yma dros y canrifoedd fel iaith y cartref, iaith y gymdogaeth leol, iaith celfyddyd a chrefydd – yn enwedig yn ardaloedd gogleddol a gorllewinol Cymru.

Yn hanesyddol, felly, y peuoedd cymdogaethol fu cadarnleoedd y Gymraeg. Bellach, mae newidiadau demograffig yr hanner canrif ddiwethaf wedi golygu bod mwy o siaradwyr Saesneg wedi dod i fyw yn yr ardaloedd a fu'n diriogaeth draddodiadol i'r Gymraeg drwy'r canrifoedd. Mae byd crefydd hefyd wedi wynebu trai ac mae dulliau newydd a hwylusach o deithio a chyfathrebu wedi gweddnewid ein patrymau byw.

Mae'r cymdogaethau Cymraeg hynny, felly, wedi wynebu her barhaus yn ystod y degawdau diwethaf i sicrhau fod modd iddyn nhw barhau i ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith eu byw a'u bod – o fewn y teulu, eu rhwydwaith cyfeillion, gyda chymdogion, wrth ddefnyddio gwasanaethau lleol, yng ngweithgareddau mudiadau gwirfoddol ac yn gyhoeddus o fewn y gymdogaeth yn gyffredinol. Mae yna eironi amlwg yn y ffaith fod y Gymraeg, ar yr union gyfnod y mae wedi adennill statws, bri a defnydd mewn peuoedd cyhoeddus, eto'n wynebu her wirioneddol yn y peuoedd cymdogaethol hynny a'i cynhaliodd cyhyd.

Sut ellid mynd ati, felly, i wynebu'r her? Mae Llywodraeth Cymru, nifer o gyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol Cymru a chyrff gwirfoddol yn gweithredu'n ddygn dros y Gymraeg ar lefel genedlaethol, ranbarthol a sirol

mewn llawer maes. Mae hynny wedi cynyddu statws y Gymraeg, y bri a roddir arni a'r defnydd cyhoeddus a ellir ei gwneud ohoni o flwyddyn i flwyddyn. Ond anaml mae'r mentrau cenedlaethol, rhanbarthol a sirol hynny yn medru cyrraedd calon cymdogaethau lleol.

Erbyn hyn mae cydnabyddiaeth gyffredinol fod angen i gynllunwyr iaith ysgogi gweithredu ar y lefel mwyaf lleol posibl. 'Cynllunio iaith micro' yw un term a ddefnyddir. 'Datblygu cymunedol' yw un arall. Pa bynnag fodel cysyniadol a ddefnyddir, ymddengys fod cynladwyedd y Gymraeg ar lefel y gymdogaeth, i raddau helaeth iawn, yn nwylo gweithredwyr a 'phencampwyr' lleol. Gall asiantaethau cenedlaethol, rhanbarthol a sirol gynorthwyo, gallan nhw greu rhai amodau a chynnig adnoddau o bryd i'w gilydd. Mae dyfodol ein cymdogaethau Cymraeg, fodd bynnag, i raddau helaeth iawn yn eu dwylo nhw'u hunain - fel erioed. Arf i'w cynorthwyo nhw i wynebu'r her honno yw'r pecyn hwn.



{Nod ac amcanion}

2.1 Nod

Nod y pecyn adnoddau hwn, felly, yw cynorthwyo grwpiau lleol i adnabod anghenion datblygu a gweithredu o blaid y Gymraeg o fewn eu cymdogaeth leol.

Drwy weithredu'r pecyn a'i brosesau gobeithir ysgogi gweithgaredd cydlynus o fewn cymdogaethau Cymraeg er mwyn ceisio gosod yr amodau cymdeithasol gorau posibl er ffyniant y Gymraeg yn lleol.

Adeiladu gallu cymdogaethau i adnabod a mynd i'r afael â heriau ieithyddol cyfoes yn lleol yw'r bwriad, drwy ddarparu pecyn adnoddau a dull gwaith clir a phwrpasol.

I defnyddio jargon ein cyfnod, sicrhau cynladwyedd ein cymdogaethau Cymraeg mewn cyfnod o newid yw'r nod cyffredinol.

2.2 Amcanion

I fynd i'r afael â'r her hon mae'r pecyn yn hwyluso proses sy'n cynnwys y camau canlynol, gan gynnig gwybodaeth a chynghor ymarferol ar hyd y daith:

- **Sefydlu grŵp gweithredu lleol** – cynigir arweiniad ar sut i fynd ati i sefydlu ac ysgogi grŵp o unigolion er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith.
- **Cynnal ymchwil perthnasol i natur y gymdogaeth** – ceir canllaw ar gasglu gwybodaeth am nodweddion ac agweddau cymdeithasol y gymdogaeth a sut i gael gafael ar y wybodaeth.
- **Cynnal asesiad o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn lleol** – ceir fframwaith i hwyluso mesur hyfywedd y Gymraeg yn lleol o ran ei statws gweledol, y defnydd llafar a wneir o'r Gymraeg a'r gwerth a roddir ar y Gymraeg gan drigolion lleol.
- **Adnabod camau gweithredu** – awgrymir sut y gellid adnabod tasgau sydd angen eu cyflawni a'u blaenoriaethu.

- **Clustnodi adnoddau a phennu cyfrifoldebau** – cynigir arf syml er mwyn cynllunio cyflawni'r dyheadau hynny a nodwyd.
- **Rhoi'r cynllun ar waith** – bwrw ati i droi'r syniadau a'r bwriadau yn ffaith.
- **Monitro a gwerthuso cynnydd** – cynhwysir awgrymiadau y gellid eu gweithredu er mwyn sicrhau fod y broses yn gweithio a bod modd adeiladu arni i'r dyfodol.

Gwelir, felly, mai amcanion cwbl ymarferol sydd i'r pecyn hwn. Pecyn gwaith ydyw. Pecyn i ysgogi newid a ffyniant.

2.3 Gorolwg o'r fframwaith

Gellir rhannu'r pecyn yn dair rhan:

- **Canllawiau Gweithredol** – sy'n esbonio'r broses ac yn cynnig arweiniad ar gyfer casglu gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol.
- **Y Fframwaith Asesu** – sy'n cynnwys tair taflen ar gyfer tri cham o'r broses.
- **Y Cofnod Electronig** – ar gyfer nodi'r data a gwerthuso cynnydd maes o law.

2.3.1 Canllawiau Gweithredol

Mae'r Canllawiau Gweithredol yn arwain y darllenydd drwy resymeg a chymau'r broses datblygu, gan roi cynghorion ar sut i weithredu'r broses yn effeithiol.

Ym Mhennod 5.0 ceir arweiniad ar sut i fynd ati i gasglu gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol a ffurfio Proffil Cefndirol triphlyg fel sail i'r gwaith:

- a) Proffil o'r gymuned leol
- b) Y cefndir polisi
- c) Gwybodaeth leol gadarn

2.3.2 Y Fframwaith Asesu

Mae'r fframwaith yn ei hanfod yn un syml. Mae wedi ei strwythuro yn ôl themâu sydd, rhyngddyn nhw, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r nodweddion a'r gweithgareddau cymdeithasol perthnasol i hyfywedd y Gymraeg.

- Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol
- Trosglwyddo Iaith a'r Blynnyddoedd Cynnar
- Addysg Ffurfiol ac Anffurfiol
- Demograffeg y Gymraeg
- Yr Economi, Gwasanaethau ac Isadeiledd

Ar gyfer pob thema ceir tair taflen:

- **Taflen Fapio** – sy'n cymryd stoc o statws y Gymraeg a'i defnydd yn yr ardal.
- **Taflen Gloriannu** – sy'n holi'n fanylach am ymddygiad cymdeithasol o fewn y gymdogaeth.
- **Taflen Weithredu** – sy'n rhoi cyfle i nodi syniadau a thasgau penodol.

2.3.3 Y Cofnod Electronig

Dogfen MS Excel yw hon sy'n cynnig dull cyffredin i gofnodi gwybodaeth am y broses wrth iddi fynd rhagddi ynghyd â chofnodi cynnydd a llwyddiant maes o law.

Bydd y Cofnod Electronig yn gymorth i chi i gofnodi eich data yn lleol ac yn gymorth i drefnu a choladu gwybodaeth o bob ardal yn ganolog ar ffurf gyson.

{Diffinio cymdogaeth}

Efallai i rai ohonoch sylwi nad yw'r gair 'cymuned' wedi ei ddefnyddio yn y testun hwn hyd yma. Mae hynny'n fwriadol. 'Cymdogaeth' yw'r term a ddefnyddir. Cystal esbonio.

Mae sylwebyddion diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith fod 'cymuned' yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt nifer o ystyron amrywiol erbyn hyn – fel, yn wir, mae'r term community yn Saesneg. Er enghraifft, mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr unedau gweinyddol sy'n ffurfio wardiau etholiadol – tiriogaeth ein Cyngorau Cymuned. Gellir ei ddefnyddio i gyfeirio at bentref bychan neu fro eang, yn dibynnu ar y cyd-destun. Mae'n cael ei ddefnyddio fel enw cyffredinol am 'y cyhoedd' gan weinyddwyr sy'n hoff o "ymgyngori gyda'r gymuned". Mae'r Cyngorau Iechyd Cymuned yn enghraifft ffurfiol o hynny. Gall olygu grŵp sydd â diddordeb hamdden cyffredin (community of interest). Ceir cymunedau ethnig sy'n byw ledled y wlad neu gymuned grefyddol sy'n byw'n ynysig mewn mynachlog benodol. Mae wedi dod yn derm hynod gyffredin ei ddefnydd ac eang ei ystyr.

Pobl mewn perthynas â'i gilydd

Yng nghyswllt cynllunio iaith meicro neu ddatblygu cymunedol cyfrwng Cymraeg daliwn fod y term cymdogaeth yn medru ein gwasanaethu'n well, gan ei fod yn dwyn nifer o ystyron defnyddiol i'r meddwl – ystyron sydd â pherthynas â'n nodweddion diwylliannol. Mae cymdogaeth, yn y man cyntaf, yn awgrymu pobl sy'n cydfyw yn gymdogol, sy'n gyd-ddibynnol ar ei gilydd, yn rhannu'r un hanes, yr un diwylliant a'r un profiadau. Yn ei gynhesrwydd a'i agosatrwydd mae'n awgrymu'r lleol, ein bywydau domestig, y lefel ddynol o'n byw a'n bod.

Yn ganolog i'r term, ac yn allweddol, mae perthynas pobl â'i gilydd. Dyna'r hanfod. Rhwydwaith o bobl yw cymdogaeth, felly. Pobl sy'n cydfyw, cydweithio a chydweithredu â'i gilydd yn undod diwylliannol mewn ardal benodol. Yn allweddol, diffinnir yr ardal honno ganddyn nhw eu hunain – nid gan bobl eraill.

Ffiniau cymdogaeth

Nid yw cymdogaeth o reidrwydd yn dilyn ffiniau'r gweinyddwyr. Gall groesi ffiniau cymuned, ward a sir. Yn aml, mae'n dilyn y ddaearyddiaeth leol, patrymau teithio neu hanes economaidd cyffredin. Gall y ffiniau fod yn annelwig neu'n gwbl wybyddus. Yn aml, mae i gymdogaeth hunaniaeth hanesyddol a arddelir gan y trigolion – hunaniaeth sy'n ysgogi ymlyniad ati ac ymdeimlad o falchder bro. Gall cymdogaeth fyw mewn un pentref penodol, mewn clwstwr o bentrefi mewn ardal wledig, mewn cwm, mewn maestref neu mewn bro eang. Gall cymdogaeth fod yn fro. Gall bro fod yn sawl cymdogaeth. Yn ganolog – fel nodwyd uchod – mae cymdogaeth yn diffinio ei hun. Diffiniad mewnol yw e, nid diffiniad a osodir oddi allan. Mae cymdogaeth yn gwybod ble mae ei ffiniau. Y mae yr hyn ydyw ac mae cydnabod a dathlu yr hunaniaeth a'r hyder cysefin hynny yn allweddol i'r broses hon.

Unigolion a rhwydweithiau cymdeithasol

Ydy pawb sy'n byw o fewn ardal benodol yn rhan o'r gymdogaeth felly? Wel, ydyn - os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Cofier, fodd bynnag, mai sôn am gymdogaethau Cymraeg ydyn ni yma. Un ffactor cwbl allweddol sy'n diffinio'r gymdogaeth honno, felly, yw mai'r Gymraeg yw iaith ymwneud aelodau'r gymdogaeth â'i gilydd. Rhan amlaf mewn cymdogaeth Gymraeg, o ddiffiniad, y Gymraeg yw'r iaith hanesyddol sydd wedi cael ei defnyddio'n bennaf yn y gymdogaeth i ddibenion cymdeithasol beunyddiol ers canrifoedd. Fodd bynnag, mewn ardaloedd mwy Seisnigedig gall fod y defnydd o Gymraeg wedi tyfu yn yr ardal yn ddiweddar – o ganlyniad i addysg Gymraeg a/neu fewnlifiad o siaradwyr Cymraeg, gan greu cymdogaeth newydd o siaradwyr Cymraeg lle cynt na fu un yn bod.

Rhaid cofio nad yw cymdogaethau yn unffurf. Mae gan bob cymdogaeth ei nodweddion, ei rhinweddau a'i heriau ei hun. Nid yr un yw natur a strwythur pob cymdogaeth. Yn elfennol, rhwydwaith o rwydweithiau yw cymdogaeth fel pob endid cymdeithasol. Gall unigolion fod yn



ymwneud â'r rhwydweithiau hynny i raddau gwahanol iawn. Yn wir, bydd yna rhai unigolion – yn siaradwyr Cymraeg ac yn siaradwyr Saesneg – nad sy'n ymwneud â rhwydweithiau'r gymdogaeth leol o gwbl. Rhaid derbyn hynny. Dyna'u hawl a'u dewis. Mae patrymau teithio, gweithio a chyfathrebu wedi newid cymaint fel bod cylch ymwneud cymdeithasol cynifer o bobl wedi ehangu tu hwnt i'w hardal leol ac mewn ambell achos yn milwrio yn erbyn eu hawydd i ymwneud â'u chymdogion. Bydd bron pawb o fewn y gymdogaeth, mae'n siŵr, yn perthyn i rwydweithiau ehangach yn ogystal â rhwydweithiau'r gymdogaeth leol.

Ymwneud, ymrwymiad ac ymddiriedaeth

Gan dderbyn fod patrymau teithio, gweithio a chyfathrebu wedi newid yn ddifawr yn ystod y degawdau diwethaf – a bod newidiadau demograffig wedi llacio ymlyniad wrth leoliad daearyddol – rhaid cydnabod hefyd fod cnewyllyn ein cymdogaethau Cymraeg hanesyddol yn parhau'n gyd-destun cymdeithasol cadarn mewn llawer man a hynny drwy gysylltiadau teuluol, cymdogol a chymdeithasol lleol. Rhan o berthyn i gymdogaeth Gymraeg, felly, yw'r union elfen yna o berthyn, o hunaniaeth, bod â chyswllt ag eraill ac uniaethu â nhw. Gall hynny ddal ei arwyddocâd hyd yn oed pan mae unigolion yn symud oddi allan i'r ardal leol am gyfnod.

Mae bod yn rhan o gymdogaeth Gymraeg yn golygu elfen o ymrwymiad i dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol ynghyd â chydabyddiaeth o fuddiannau cyffredin. Mae'n golygu dwyn cyfrifoldeb dros y dreftadaeth a'r buddiannau hynny. Mae'n golygu ymddiried mewn eraill sy'n rhannu'r gwerthoedd hynny – pobl sydd eisiau gweld eu cymdogaeth Gymraeg nhw (boed hanesyddol neu newydd) yn parhau ac yn ffynnu i'r dyfodol.

Cymdogion di-Gymraeg

Er ei fod yn swnio'n baradocs, rhaid cofio nad oes rhaid i chi fedru siarad Cymraeg i fod yn rhan o gymdogaeth Gymraeg. Efallai eich bod wedi symud i'r ardal yn ddi-Gymraeg, efallai eich bod wedi priodi siaradwr Cymraeg lleol, efallai i chi gael eich geni i deulu di-Gymraeg lleol. Os ydych yn gweld gwerth yn y Gymraeg, yn cefnogi ymdrechion i'w pharchu a'i defnyddio, yn cefnogi neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg lleol – rydych yn rhan o'r gymdogaeth Gymraeg. Yn rhyfedd ddigon, does dim gwaharddiad ieithyddol ar aelodaeth o gymdogaethau Cymraeg. Yr ymwneud, yr ymrwymiad a'r ymddiriedaeth yw'r allwedd.

Cymdogaeth, iaith a dwyieithrwydd

Erbyn heddiw, i wahanol raddau, mae unigolion a rhwydweithiau cymdogaethau Cymraeg yn byw cyfochrog ag unigolion a rhwydweithiau Saesneg. Ar lefel unigolion a theuluoedd, yn amlach na pheidio, deuir i ddealltwriaethau ymarferol ynglŷn â defnydd iaith ar sail gwerthoedd ac arferion unigolion. Y mwyaf ffurfiol yw'r cyswllt cymdeithasol, fodd bynnag, (boed yn fudiad gwirfoddol, gwasanaeth lleol neu gyfarfodydd cyhoeddus amrywiol) bryd hynny daw'r mater o ddwyieithrwydd i'r amlwg fel mater o densiwn posibl.

Dwy o heriau'r broses hon yw: yn gyntaf, sicrhau fod y Gymraeg yn cael statws, bri a defnydd yn y pau cyhoeddus dwyieithog lleol heb iddi gael ei hesgeuluso ar draul yr iaith gyffredin fwyafrifol, sef Saesneg. Yr her arall yw cynnal a datblygu'r peuoedd cyhoeddus hynny lle mai'r Gymraeg yn unig a ddefnyddir, tra'n llwyddo ar yr un pryd i estyn allan a chynnwys unigolion nad ydyn nhw'n medru deall na siarad Cymraeg, pan fo hynny'n briodol ac yn amserol. Mae cynnal integriti peuoedd uniaith Cymraeg mewn cyd-destun cynyddol ddwyieithog yn her allweddol.

Creu cymdeithas - creu newid, creu'r newydd

Cael eu creu a'u hail-greu o'r newydd mae strwythurau cymdeithasol. Gwneir hynny drwy sefydlu arferion cymdeithasol penodol – gan gynnwys defnydd iaith. Mae newidiadau cymdeithasol, felly, yn anorfod. Dygymod â'r newidiadau tra'n diogelu gwerthoedd a buddiannau yw'r gamp. Yng nghyswllt y Gymraeg, oherwydd ei sefyllfa ddi-rym a'r hyd y canrifoedd, mae tuedd wedi bod i siaradwyr Cymraeg ymddwyn yn geidwadol, yn amddiffynnol, os nad yn adweithiol ar brydiau, gan weld newid yn elyn. Yn y sefyllfa gyfredol rhaid i ni weld newid fel cyfaill.

Creu newid yw'r dasg. Creu newidiadau cymdeithasol o blaid y Gymraeg. Os ydym am weld ein cymdogaethau Cymraeg yn parhau i'r cenedlaethau nesaf, mae'n rhaid i ni eu creu o'r newydd. Dyna her y broses hon.



{Sefydlu Grŵp Gweithredu}

Y Grŵp Gweithredu yw calon y broses hon. Sefydlu'r Grŵp Gweithredu yw dechrau'r broses. Aelodau'r Grŵp Gweithredu fydd yn berchen ar y broses o hynny ymlaen.

Pwy yw'r Grŵp Gweithredu?

Criw o unigolion o blith y gymdogaeth yw'r Grŵp Gweithredu. Does dim angen unrhyw arbenigedd penodol i fod yn aelod o Grŵp Gweithredu – dim ond adnabyddiaeth go lew o'r gymdogaeth Gymraeg leol ac uchelgais i'w gweld yn ffynnu.

Gallan nhw fod yn adnabod ei gilydd yn dda, yn gydnabod neu'n ddieithr i'w gilydd. Y peth pwysig yw eu bod yn adeiladu ymddiriedaeth yn ei gilydd wrth fynd ymlaen gan ffurfio eu hunain yn ddim cadarn gyda gweledigaeth gytûn a nodau pendant.

Gallai holi unigolion sy'n cynrychioli rhwydweithiau a gweithgareddau amrywiol y gymdogaeth i fod yn aelodau o'r Grŵp Gweithredu fod yn gam defnyddiol ond dydy hynny ddim yn hanfodol. Nid sefydlu grŵp cwbl gynrychioladol o'r ardal yw'r bwriad. Casglu ynghyd unigolion sydd â rhywfaint o weld yn perthyn iddyn nhw yw'r bwriad. Gweledigaeth, brwdfrydedd, uchelgais a phenderfyniad i lwyddo yw'r nodweddion craidd.

Fel rheol mae'r unigolion hynny eisoes yn cymryd rhan arweiniol yn y gymdogaeth beth bynnag ac yn debygol i ddod â'u cysylltiadau cymdogaethol gyda nhw.

Er nad ffurfio grŵp cwbl gynrychioladol o'r ardal yw'r bwriad, byddai'n werth sicrhau fod unrhyw nodweddion daearyddol a chymdeithasol lleol yn cael eu hystyried wrth wahodd aelodau'r Grŵp Gweithredu at ei gilydd. Wrth i'r Grŵp fwrw ati gyda'r gwaith efallai y daw hi'n amlwg fod angen tynnu ar wybodaeth arbenigol yn lleol – athro, gweithiwr ieuenctid, person busnes, cynghorydd cymuned – neu gael cyswllt â mudiad, rhwydwaith neu grŵp oedran penodol. Gellir dwyn pobl eraill i mewn i'r drafodaeth yn ôl y galw wrth i'r anghenion amlygu ei hunain.

Faint o aelodau?

Does dim rheol gadarn ynglŷn â faint o bobl y dylid eu cael ar Grŵp Gweithredu. Mae angen digon o bobl i wneud y trafod yn ystyrion ond heb sefydlu grŵp rhy fawr nad oes modd dod i gytundeb na rhannu'r cyfrifoldeb. Yn ddelfrydol, mae'n siŵr, byddai grŵp o rhwng 6-8 aelod yn ddigonol er mwyn hwyluso'r broses.

Yr hyn sydd yn bwysig yw bod pawb yn rhannu'r weledigaeth, rhannu'r consyrn a rhannu'r uchelgais dros ddyfodol eu cymdogaeth Gymraeg leol.

Ble dylid cyfarfod?

Does fawr o ots ble mae'r Grŵp Gweithredu yn cyfarfod chwaith. Gellir gwahodd criw at ei gilydd yng nghartref un o'r aelodau. Efallai y bydd lleoliad mwy niwtral mewn tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd neu festri yn fwy addas. Efallai bydd y lleoliadau yn mynd yn fwy ffurfiol wrth i'r trafodaethau fynd yn fwy manwl – pwy a ŵyr? Y cyfan sydd angen ei gofio yw sicrhau bod y lle cwrdd yn rhywle sy'n gyfforddus i'r aelodau i gyd.

Mwy o bwyllgora?

Mae'r broses yn gofyn am ymrwymiad gan aelodau'r Grŵp Gweithredu i drafod dyfodol y gymdogaeth Gymraeg. Derbynnir y gall ceisio gwahodd unigolion prysur i 'gyfarfod arall' fod yn broblematic – oherwydd ymrwymadau i bwyllgorau lleol eraill neu ddiffyg diddordeb mewn 'pwyllgora' yn y lle cyntaf.

I hwyluso hynny awgrymir y dylid sicrhau fod y disgwyliadau yn eglur ar y dechrau, sef, eich bod yn gofyn am eu presenoldeb:

- mewn nifer cyfyngedig o gyfarfodydd – hyd at 6 dyweder,
- bod y cyfarfodydd hynny i fod yn rhai â ffocws clir a phwrpasol,
- na fydd y cyfarfodydd yn hwy nag awr a hanner,
- ac mai bwriad yr ymarferiad yw dod i gasgliadau a chanlyniadau ymarferol – y Cynllun Gweithredu.

Grŵp 'gorchwyl a gorffen' yw'r Grŵp Gweithredu yn y cyfnod cyntaf hwn. Ar ôl llunio'r Cynllun Gweithredu lleol gellir ail edrych ar aelodaeth y grŵp.



Holi, trafod a chanfod atebion

Bwriad y broses yw ysgogi aelodau'r Grŵp Gweithredu i edrych o'r newydd ar sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardal ac adnabod y pethau hynny sydd angen eu gwneud er mwyn cryfhau'r sefyllfa i'r dyfodol.

Mae hynny'n gofyn iddyn nhw holi ei gilydd a holi eu hunain am y sefyllfa. Holi cwestiynau yw craidd y broses. Fel mae plant ifanc, pan yn dechrau profi dirgelion y byd a'i bethau, yn holi 'Pam?' yn barhaus – dyna hefyd ddylai fod meddylfryd aelodau'r Grŵp Gweithredu. Peidio cymryd pethau'n ganiataol. Ceisio gweld pam fod pethau fel y maen nhw. Beth sy'n effeithio ar wahanol sefyllfaoedd a thueddiadau? Dylen nhw holi eu hunain sut orau i ddylanwadu ar y sefyllfa er mwyn newid pethau.

Yn y pen draw, trigolion yr ardal – aelodau'r gymdogaeth – fydd â'r atebion i'r heriau a ymddengys. Does yna ddim ffon hud gan asiantaethau allanol. Daw'r atebion yn ddi-os o drafodaethau'r Grŵp ei hunan.

Ymestyn allan

Er bod y Grŵp Gweithredu'n allweddol, nid aelodau'r Grŵp Gweithredu a nhw yn unig fydd ynghlwm wrth y broses hon yn y pen draw. Bydd rhaid ymestyn allan mewn sawl ffordd wrth ddechrau gweithredu'r tasgau. Er enghraifft:

- Ymgynghori â grwpiau penodol – o dro i dro, efallai y bydd angen ymgynghori gyda grwpiau penodol yn yr ardal, e.e. mudiad gwirfoddol penodol neu grŵp oedran i gywain barn neu bersbectif.
- Cyfarfodydd cyhoeddus – er mwyn rhoi cyfle i'r gymdogaeth fynegi barn ar y Cynllun Gweithredu neu godi llais ar fater llosg neu arwyddocaol maes o law.
- Cyfarfodydd ymestyn allan – er mwyn esbonio bwriadau ac uchelgais i grwpiau penodol er cynyddu'r gefnogaeth a bod yn gynhwysol.

Wedi i'r grŵp craidd sefydlu ei hun a dod yn gyfforddus i gydweithio â'i gilydd yn y Gymraeg (gall fod yn brofiad newydd i rai pobl) bydd modd estyn gwahoddiad i unigolion di-Gymraeg ymuno a'r Grŵp a bo hynny'n ddymunol – gan sicrhau fod egwyddorion a thechnegau wedi eu sefydlu i sicrhau mai Cymraeg fyddai'n parhau'n brif iaith trafod y Grŵp.

Gellid meddwl am y Grŵp Gweithredu, felly, fel canolbwynt anffurfiol i gylch o gylchoedd – dolen lac rhwng rhwydweithiau lleol – dolen sy'n medru dod â ffocws, pwrpas a chyfeiriad i'r drafodaeth ieithyddol yn lleol.

Rôl yr Hwylusydd

Gorau oll os mai grŵp lled anffurfiol yw'r Grŵp Gweithredu. Does dim angen iddo ethol swyddogion yn y ffordd draddodiadol (er y gellid gwneud hynny maes o law er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu, os mai dyna ddymuniad y grŵp, wrth gwrs).

Fodd bynnag, byddai pennu hwylusydd yn gam doeth. Swyddogaeth yr hwylusydd fyddai:

- Egluro'r weledigaeth a'r bwriad
- Esbonio proses y Fframwaith Asesu
- Cydlynu'r broses casglu gwybodaeth ar gyfer y Proffil Cefndirol
- Ysgogi trafod trefnus ac ystyrlon ar sail y Fframwaith
- Cadw cofnodion priodol o'r drafodaeth – gall hynny fod ar unrhyw ffurf addas, nid yn gofnodion pwyllgor o reidrwydd
- Monitro'r gweithredu
- Hwyluso sesiwn werthuso
- Sicrhau dilyniant

Gall rhai o'r dyletswyddau uchod gael eu dosrannu i eraill, wrth gwrs, ond cyfrifoldeb yr Hwylusydd fyddai sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

Mae'n bosibl mai un o swyddogion y Fenter Iaith leol fydd yr Hwylusydd. Er y gallai, yn yr un modd, fod yn unrhyw aelod cymwys o'r Grŵp Gweithredu lleol.

Efallai y byddai o fantais i'r Hwylusydd feddu ar rhywfaint o brofiad o hwyluso trafodaethau grŵp ond mae'r Fframwaith Asesu ei hun yn cynnig sail go lew ar gyfer cyfeirio'r drafodaeth. I'r di-brofiad, ceir arweiniad defnyddiol ar sut i hwyluso Grwpiau Gweithredu gan Euros Lewis yn 'Llawlyfr y Pwerdai: Cymdogaethau Cymraeg Cynaliadwy' a gyhoeddwyd drwy Wasanaeth Addysg Gymunedol Theatr Felin-fach, Cyngor Sir Ceredigion, yn 2009.



{Casglu gwybodaeth gefndirol}

5.1 Llunio proffil o'r gymuned leol

Mae llunio proffil o'r gymuned neu'r cymunedau lleol yn gam cyntaf pwysig. Waeth pa mor dda rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n adnabod ein hardal leol mae rhywbeth newydd i'w ddysgu neu ryw ongl wahanol yn cael ei datgelu i ni o greu proffil cymunedol ac o drafod y ffeithiau moel hynny gydag eraill.

Cesglir ystadegau am nodweddion cymdeithasol cymunedau'r Deyrnas Gyfunol bob deng mlynedd drwy'r Cyfrifiad. Dadansoddir a chyhoeddir y wybodaeth honno gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS). Gellir cael gafael ar gyfoeth o wybodaeth ganddyn nhw am ddim ar-lein o ymweld â gwefan ystadegau lleol yr ONS (www.neighbourhood.statistics.gov.uk).

Trefnir yr wybodaeth gan ONS ar sail ward etholiadol, awdurdod lleol a Chymru ac fe gewch y wybodaeth am bob haen, ran amlaf, gyfochrog â'i gilydd. Gellir cael gafael ar ystadegau am eich ardal chi drwy fewnosod cod post a dilyn y dewisiadau. Y cam cyntaf, felly, fyddai sicrhau eich bod yn gwybod ble yn union mae ffiniau'r wardiau etholiadol lleol. Yn ddefnyddiol iawn, ceir mapiau ar y tudalennau gwe uchod i'ch cynorthwyo. Os yn parhau mewn penbleth, bydd swyddogion adran gynllunio eich Cyngor Sir neu glerc Cyngor Cymuned lleol yn medru eich cynorthwyo ymhellach. Fel nodwyd ynghynt – gochelwch

rhag drysu rhwng ffiniau'r gymdogaeth rydych chi'n talu sylw iddi a'r ffiniau gweinyddol. Does dim rheidrwydd eu bod yn rhannu'r un ffiniau.

Mae hefyd yn werth nodi ffiniau cymunedau a wardiau etholiadol cyfagos – a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, fel nodwyd eisoes, gall fod eich cymdogaeth yn goferu dros y ffiniau gweinyddol yna. Yn ail, byddai cael darlun cymharol o'ch cymdogaeth neu gymuned ochr yn ochr â chymunedau cyffiniol o fantais. Er enghraifft, efallai fod yna wahaniaethau mewn proffiliau oedran neu gyflogaeth a allai fod yn arwyddocaol.

Mae yna ddegau o setiau data ar y wefan ystadegau cymdogaethol. Ar gyfer greu proffil cymunedol sylfaenol awgrymir y gellid ymchwilio am wybodaeth ffeithiol ynglŷn â'r nodweddion canlynol:

- Proffil y boblogaeth o ran nifer, rhyw ac oedran.
- Sgiliau Cymraeg y boblogaeth.
- Cenedligrwydd/Man geni
- Cyflogaeth/Hunangyflogaeth/Diweithdra
- Y Stoc Dai yn lleol





Efallai y dewch chi ar draws ffeithiau difyr eraill ar y wefan sy'n berthnasol i'ch cymdogaeth chi. Porwch.

O ran amddifadedd a difreintedd eich cymdogaeth, e.e. lefel incwm a mynediad i wasanaethau ac ati, gallwch gyrchu ystadegau fesul ward etholiadol drwy ddilyn y dolenni o wefan Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011, Llywodraeth Cymru,

(<http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/wimd2011/?lang=cy>)

Un set arall o ystadegau diddorol fyddai ystadegau ynglŷn â throsglwyddo iaith. Fydd hynny ddim ar gael yn uniongyrchol gan yr ONS. Cysylltu gyda chynllun Twf fydd y cam gorau ar gyfer hynny (twfgweinyddol@iaith.eu) a bydd staff y cynllun yn medru anfon y wybodaeth atoch.

Tra bod tystiolaeth feintiol fel ystadegau'r ONS yn medru bod yn ddadlennol iawn, mae tystiolaeth ansoddol hefyd yn medru bod yn gyfoethog. Wrth bori yn yr ystadegau, felly, mae'n bwysig fod aelodau'r Grŵp Gweithredu yn tymheru'r wybodaeth ffeithiol gyda'u gwybodaeth leol a'u dealltwriaeth nhw o'r sefyllfa gymdeithasol o fewn y gymuned.



5.2 Y cefndir polisi

Er gwell neu er gwaeth mae cyd-destun ein bywydau beunyddiol dan ddylanwad polisiau cyhoeddus – boed hynny ar lefel sirol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol.

Wrth fynd ati i gynllunio ar lefel y gymdogaeth mae'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol o ba bolisiau all effeithio ar ein hymdrechion a beth yn union mae'r polisiau hynny yn ei ddweud am y Gymraeg.

Gallai cribinio dogfennau polisi, gan godi darnau, cymalau a dyfyniadau perthnasol ynghylch y Gymraeg fod yn dasg gychwynnol ddefnyddiol i aelod(au) o'r Grŵp Gweithredu. Gellid cadw'r dystiolaeth yna, wedyn, ar ffeil er mwyn cyfeirio at dystiolaeth maes o law pan yn berthnasol ac yn amserol.

Rhestrir isod rhai o'r dogfennau y gellid ystyried cribinio ynddynt:

- Siarter Ewrop ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol
(<http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/179.pdf>)
- Mesur y Gymraeg 2011.
- Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru 2012 a'i rhagflaenydd, 'Iaith Fyw, Iaith Byw – Strategaeth ar gyfer y Gymraeg (dogfen ymgynghorol)' (Rhagfyr 2010).

- Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ebrill 2010).
- Strategaeth Iaith yr Awdurdod Lleol (os oes ar gael).
- Strategaeth Gymunedol yr Awdurdod Lleol/Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Cynllun Iaith yr Awdurdod Lleol.
- Cynllun Iaith y Bwrdd Iechyd Lleol.
- Strategaeth/Cynllun Iaith Addysg yr Awdurdod Addysg Lleol.
- Cynllun Datblygu Lleol (cynllunio defnydd tir) yr Awdurdod Lleol.
- Cynllun datblygu economaidd yr Awdurdod Lleol.

Dylai'r dogfennau yma roi hyder i chi ac eraill o fwriadau cadarnhaol polisi cyhoeddus o blaid y Gymraeg (ac ieithoedd lleiafrifol eraill). Dylen nhw hefyd eich hysbysu o gryfderau a gwendidau polisi a gweithredu yn sirol ac yn rhanbarthol. Gall hynny fod yn arf cadarn mewn ambell i amgylchiad.

5.3 Gwybodaeth leol gadarn

Cyn mynd ati i gynnal eich asesiad lleol byddai'n werth cymryd un cam arall er mwyn casglu gwybodaeth gadarn am y Gymraeg yn eich ardal. Dydy'r wybodaeth yma ond ar gael gennych chi yn lleol. Mater o'i gasglu o'ch adnabyddiaeth chi o'r ardal a'ch cysylltiadau lleol yw hi. Eto, mater o adeiladu ffeil neu bortffolio o wybodaeth ddefnyddiol yw'r dasg. Efallai eich bod yn meddwl fod gennych adnabyddiaeth dda o'ch ardal ond cofiwch, bydd gan eraill fwy o wybodaeth am ambell elfen neu yn gwybod am agweddau o fywyd y gymdogaeth nad ydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw. Dyna werth y trafod.

Rhestrwn isod rhai o'r agweddau y byddai'n syniad casglu gwybodaeth amdanyn nhw. Byddai defnyddio fflip-siart i gofnodi yn ffordd defnyddiol o fynd ati. Gallwch fynd at y dasg hon yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Gweithredu.

5.3.1 Proffil iaith o sefydliadau/mudiadau lleol – rhestrwch holl fudiadau a sefydliadau'r ardal gan ddod i farn ynglŷn â'u defnydd o Gymraeg. Ydy'r mudiad neu'r sefydliad yn cynnal eu digwyddiadau a'u gweithgareddau yn y Gymraeg yn unig, yn y Saesneg yn unig neu'n ddwyieithog? Os yn ddwyieithog – i ba raddau?

5.3.2 Calendr digwyddiadau lleol – mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd galendr anffurfiol o ddigwyddiadau sy'n digwydd, fwy na heb, yr un pryd bob blwyddyn. Rhestrwch y digwyddiadau arwyddocaol hynny a'i rhestri yn nhrefn amser. Oes digwyddiadau sydd angen eu newid neu eu diwygio? Oes angen ysgogi digwyddiadau newydd? Oes bylchau yn y flwyddyn sy'n cynnig cyfleoedd newydd?

5.3.3 Y ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar – efallai y byddwch yn gwybod am y ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar yn yr ardal eisoes – Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi, grwpiau PPA, gwasanaethau gofal plant a darpariaeth derbyn yr ysgol(ion) lleol. Os nad ydych yn siŵr byddai cysylltu gyda Swyddog Datblygu sirol y Mudiad Meithrin yn syniad.

5.3.4 Addysg leol – byddai rhywun yn gobeithio fod aelodau'r Grŵp Gweithredol yn ymwybodol o ba ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal. Er hynny, peidiwch cymryd pethau'n ganiataol. Mae rhieni yn dewis teithio gyda'u plant i ysgolion y tu allan i'w hardaloedd a'u cymdogaethau heddiw, am amryfal resymau. Byddai'n werth ystyried pa ysgolion yn union mae plant yr ardal yn eu mynychu – a phlant o ble sy'n mynychu'r ysgol neu'r ysgolion lleol.

Mae'n naturiol i ni gymryd sefydliadau rydyn ni'n gyfarwydd iawn â nhw yn ganiataol. Efallai ei bod hi'n werth holi'r Pennaeth am ychydig o wybodaeth gefndir am yr ysgol o ran:

- polisi iaith yr ysgol,
- iaith gweithgareddau'r ysgol,
- sgiliau iaith y disgyblion, a
- chefnidir ieithyddol teuluoedd y plant.

Dylai'r holl wybodaeth fod ar gael gan Benaethiaid mewn prospectws neu mewn adroddiadau i lywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

Yn yr un modd, byddai'n ddiddorol gwybod beth yw'r patrymau mynychu a'r sefyllfa ieithyddol mewn perthynas ag addysg uwchradd pobl ifanc yr ardal.

5.3.5 Cymraeg i Oedolion – tybed a oes yna ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn eich ardal chi? Os oes, ydych yn gwybod beth yw natur y ddarpariaeth leol? Pa lefel a gynigir a sawl un sy'n mynychu? Oes yna ddosbarthiadau penodol i rieni (Cymraeg i'r Teulu) neu rieni newydd (Cymraeg o'r Crud) yn cael eu cynnig yn lleol?

5.3.6 Busnesau lleol – pa ddefnydd a wneir o'r Gymraeg mewn busnesau lleol, yn enwedig busnesau yn y sector gwasanaeth – siopau, masnachwyr, tafarndai, bwytai, Swyddfa'r Post ac ati? A fyddai arolwg bychan pen-bwrdd yn ddadlennol?

5.3.7 Cyfleusterau lleol – beth yw'r cyfleusterau sydd ar gael yn lleol at ddefnydd cyhoeddus – neuaddau, ysgolion, festrïoedd, canolfannau cymunedol ac ati? Pa ddefnydd a wneir o'r Gymraeg yno? Ydy'r Gymraeg yn weledol? Ydyn nhw'n cael eu hystyried yn ganolfannau agored i bawb neu oes yna dueddiadau ieithyddol arwyddocaol?

5.3.8 Materion cyfoes – oes yna bynciau llosg yn lleol sydd â pherthnasedd i'r Gymraeg? Gall fod yn fater cynllunio, mater economaidd, mater o wasanaethau cymdeithasol ac iechyd, diffyg cyfleusterau lleol neu fater ynglŷn ag addysg neu waith ieuenctid? Ystyrier.

5.4 Creu proffil cefndirol

Mae'n amlwg y bydd angen i chi wneud ychydig o waith cartref er mwyn casglu tipyn o'r wybodaeth uchod:

- y proffil ystadegol lleol
- y cefndir polisi
- ambell agwedd ar y wybodaeth leol

Efallai y carech ddosrannu tasgau ymchwil penodol i aelodau'r Grŵp Gweithredu. Does fawr o ots pwy sy'n casglu'r wybodaeth, wrth reswm, ond bod rhywun yn gwneud hynny.

Ar ôl cywain ynghyd proffil ystadegol o'r ardal, casglu datganiadau polisi perthnasol at ei gilydd a chadarnhau gwybodaeth leol gadarn, fe ddylech fod yn meddu ar ddarlun go gyflawn o natur a chymeriad eich ardal a'ch cymdogaeth. Rhowch y cyfan mewn ffeil bwrpasol er mwyn cadw trefn ar eich Proffil Cefndirol.

Ar ôl casglu'r Proffil Cefndirol mae ei gyflwyno i weddill y Grŵp yn hanfodol. Awgrymir mai gwneud hynny ynghyd â chynnal y drafodaeth am y sefyllfa yn lleol fod ymysg y tasgau cyntaf a gyflawnir gan y grŵp. Fodd bynnag, mae'r modd y gwneir hynny yn bwysig. Awgrymir y gall cyflwyno'r Proffil Cefndirol cyfan a disgwyl i'r Grŵp Gweithredu ei lyncu ar un eisteddiad fod yn ormod o bwdin. Awgrymir, felly, y dylech baratoi crynodeb byr o'r

prif ffeithiau disgrifiadol ac ystadegau arwyddocaol er mwyn ysgogi trafodaeth, gan ddal y ffeil lawn wrth gefn er mwyn medru cyfeirio ati o bryd i'w gilydd er mwyn atgyfnerthu ymholiad neu drafodaeth.

Efallai y byddwch yn teimlo fod casglu'r Proffil Cefndirol at ei gilydd yn feichus ond mae'n rhan annatod o'r broses a bydd yn profi ei werth ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses o ran:

- creu darlun cyflawn o'r ardal,
- taflu golau newydd ar agweddau o'r demograffi lleol,
- modd i arwain trafodaeth ac ysgogi syniadau i'w gweithredu,
- bod yn sail i weithredu pellach, a
- bod yn dystiolaeth er mwyn creu dadleuon, cynlluniau a cheisiadau ariannol maes o law.

lawn. Dyna ni. Dyna'r ymchwil. Rydyn ni nawr yn barod i gynnal yr asesiad.



{Defnyddio'r fframwaith}

6.1 Gorolwg

6.1.1 Themâu

Mae'r Fframwaith wedi ei rannu i bum thema:

- **Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol**
- **Trosglwyddo Iaith a'r Blynnyddoedd Cynnar**
- **Addysg Ffurfiol ac Anffurfiol**
- **Demograffeg y Gymraeg**
- **Yr Economi, Gwasanaethau ac Isadeiledd**

Rhyngddyn nhw, mae'r themâu yn cyffwrdd â bron pob agwedd o fywyd y gymdogaeth. O gyflawni'r cwbl, fydd gennych chi ddarlun go dda o'r sefyllfa'n lleol a'r hyn sydd angen ei wneud o hynny ymlaen i hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni.

Does dim angen mynd ati i daclo'r themâu i gyd ar yr un pryd. Cymerwch un thema ar y tro. Efallai y gwelwch chi eich hunain yn trafod dwy thema ar un noson ac yn gwario sawl noson ar thema arall. Does dim rheolau amser cadarn yn y broses heblaw am reolau a osodir gan y Grŵp ei hunan. Gweithio drwy'r nodweddion mewn modd ystyrlon yw'r peth pwysig, gan holi eich hunain yn onest a thrwyadl am y sefyllfa'n lleol. Cynnal y drafodaeth yw'r allwedd i'r cyfan.

6.1.2 Camau

I drafod pob thema yn drwyadl ceir tri cham:

- **mapio**
- **cloriannu, a**
- **gweithredu.**

Gweithiwch ar y tri cham, un thema ar y tro. Yn y pecyn ceir taflenni syml i hwyluso'r drafodaeth o gam i gam.

Bwriad y camau yma yw torri'r broses i lawr fesul thema. Mae yna ddiben penodol i bob cam:

- **Mapio:** cymryd stoc o'r sefyllfa fesul nodwedd
- **Cloriannu:** penderfynu a oes angen gweithredu ar agwedd benodol ai peidio
- **Gweithredu:** penderfynu pa dasgau sydd angen eu gweithredu

6.2 Bwrw ati

Fel nodwyd eisoes, ysgogi trafodaeth yw prif nod yr asesiad. Ysgogi trafodaeth a fydd yn eich arwain at adnabod tasgau – tasgau a fydd angen eu blaenoriaethu maes o law.

Yn gefnlen i'r trafod fydd y Proffil Cefndirol a fyddwch wedi ei chreu. Bydd elfennau o'r proffil hwnnw yn ddefnyddiol wrth i chi fwrw ati i fapio'r sefyllfa. Cadwch y Proffil Cefndirol wrth law.

6.2.1 Taflen Fapio

Bwriad yr ymarferiad mapio yw eich cynorthwyo i frwr golwg dros y sefyllfa gyfredol a'i ddisgrifio.

O edrych ar wahanol nodweddion y gymdogaeth y cwestiwn canolog i'w ofyn yw: a yw'r nodweddion yma yn ddigon cadarn, yn ddigon cyffredin, yn ddigon cyfoethog, yn ddigon bywiog, yn ddigon egnïol? Digonolrwydd, felly, yw'r allwedd i'r mapio hwn.

Mae yna golofnau ar law dde'r tabl sydd wedi eu lliwio'n wyrdd, melyn, coch a llwyd. Mae'r colofnau yn golygu'r canlynol:

Colofn werdd: Digonol

Colofn felen: Annigonol

Colofn goch: Dim darpariaeth

Colofn lwyd: Dim gwybodaeth

Yn syml, rhowch nod (✓) yn y blwch gyferbyn â'r nodwedd.

Y Fframwaith {1} Mapio

{Agwedd 1: Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol: (a) Taflen fapio}

Elfennau	Nodweddion
1.1 Ystod y cyfleoedd	1.1.1 Oes digon o amrywiaeth o gyfleoedd creadigol a chymdeithasol cy o berthyn i gymdogaeth fywiog? • Plant • Pobl ifanc • Oedolion • Teuluoedd • Henoed
	1.1.2 I ba raddau ceir presenoldeb mudiadau a sefydliadau Cymraeg traddodi diwylliannol a chreadigol? • Cylch Ti a Fi • Cylch Mudiad Meithrin • Adran yr Urdd • Aelwyd yr Urdd • Clwb Ffermwyr Ifanc • Merched y Wawr • Capeli ac Eglwysi Cymraeg • Ysgol(ion) Sul Cymraeg • Papur bro – a gohebwyd lleol • Eisteddfod leol • Cymdeithasau diwylliadol
	1.1.3 I ba raddau mae rhwydweithiau eraill yn rhoi statws uchel i'r Gymraeg a'i de • Cymdeithas(au) Rhieni ac Athrawon • Cyrff Llywodraethol Ysgolion • Cyngorau Tref a Chymuned • Pwyllgorau neuaddau pentref a lles cymunedol • Clybiau chwaraeon • Clybiau hamdden/diddordeb • Sioeau amaethyddol • Dosbarthiadau nos

6.2.2 Taflen Gloriannu

Bwriad yr ymarferiad cloriannu yw penderfynu a oes angen gweithredu ar agwedd benodol ai peidio.

Mae'r nodweddion yma yn gyfle i grynhoi'r trafodaethau a gafwyd wrth fapio a dod i farn yn eu cylch.

Mae yna golofnau ar law dde'r tabl sydd eto wedi eu lliwio'n wyrdd, melyn, coch a llwyd. Y tro yma, mae'r colofnau yn golygu'r canlynol:

Colofn werdd:
Sefyllfa o ffyniant = angen cynnal a hyrwyddo

Colofn felen: Bregus/rhai agweddau cadarnhaol =
angen hybu a chefnogi

Colofn goch: Diffygion amlwg = angen cynllunio a
gweithredu cadarn

Colofn lwyd: Amherthnasol

6.2.3 Taflen Weithredu

Mae'r drydedd daflen – y Daflen Weithredu – yn wahanol i'r ddwy arall. Tabl cynllunio ydyw. Arf i'ch cynorthwyo i gynllunio gweithredoedd neu dasgau.

Wedi i chi gloriannu'r thema fe fydd gennych restr o nodau (✓) yn y colofnau coch a melyn a fydd angen sylw pellach.

Pwnc y drafodaeth yn awr yw penderfynu pa dasgau sydd angen mynd i'r afael â nhw.

O drafod ymysg eich gilydd mae'n siŵr y dewch i gytundeb ynglŷn â'r tasgau sydd angen eu rhoi ar waith. Defnyddiwch y blychau i gynllunio sut yn union i fynd ati:

- **Gweithred/Gweithgarwch:** Disgrifiwch natur y dasg sydd angen ei chyflawni.
- **Canlyniadau Dymunol:** Nodwch yr hyn y carech weld yn deillio o ganlyniad i'r gweithgarwch. Beth fydd wedi newid yn sgil y dasg.
- **Cyfrifoldeb:** Nodwch pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y dasg yn cael ei chyflawni – gall fod yn unigolyn, yn unigolion neu'n dîm.
- **Partneriaid:** Oes yna fudiadau neu asiantaethau lleol neu sirol a allai fod o gymorth?

- **Adnoddau:** Nodwch yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i gyflawni'r dasg – gall fod yn gyllid, adeilad, offer neu bobl.
- **Amserlen:** gosodwch darged rhesymol i chi eich hunain ar gyfer cyflawni'r dasg.

Wrth fynd ati i gynllunio'ch tasgau a'ch gweithgareddau cofiwch y rheol CAMPUS. Hynny ydy, fod yn rhaid i weithgareddau effeithiol ddilyn y nodweddion canlynol:

- **Cyraeddadwy** – eu bod yn realistig, bod modd eu cyflawni mewn modd rhesymol
- **Amserol** – eu bod yn medru eu cael eu cyflawni mewn da bryd
- **Mesuradwy** – bod modd mesur y canlyniad, yr hyn sydd wedi newid
- **Penodol** – eu bod wedi eu canolbwyntio ar yr ymarferol a'u bod i bwrpas
- **Uchelgeisiol** – eu bod yn gwtio'r ffiniau, yn symud pethau ymlaen
- **Synhwyrol** – bod ystyriaeth wedi ei roi i risgiau a goblygiadau

6.2.4 Cynllun Gweithredu

O gyfuno'r pum Taflen Weithredu mae gyda chi Gynllun Gweithredu i'r Grŵp Gweithredu fynd i'r afael â hi. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud nawr yw adolygu eich syniadau, blaenoriaethu'r tasgau a bwrw ati!

Er mwyn bwrw ati'n effeithiol byddai'n werth adolygu aelodaeth y Grŵp Gweithredu. Mae ymrwymiad cychwynnol y criw i'r cyfnod cynllunio wedi cael ei wireddu nawr. Doeth, felly, fyddai rhoi cyfle i aelodau'r Grŵp Gweithredu gael cyfle i ystyried eu sefyllfa – ydyn nhw am barhau yn aelod o'r Grŵp Gweithredu ai peidio? Oes unigolion eraill y byddai'n dda eu cael ar y Grŵp Gweithredu ar gyfer y cyfnod nesaf, sef y cyfnod gweithredol?

Wedi cadarnhau aelodaeth y Grŵp Gweithredu ar gyfer y cyfnod nesaf – y cyfnod gweithredu – bwriwch ati. Mae'r gwaith go iawn ar ddechrau. Pob hwyl arni.

ionol Annigonol Dim Amh

y profiad

au

{ Agwedd 1: Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol: (b) Tafflen gloria

	Elfennau		Nodweddion
1.1	Ystod y cyfleoedd	1.1.1	I ba raddau mae angen cynyddu'r amrywiaeth o gyffwrdd ardal sy'n cynnal y profiad o berthyn i gymdogaeth ffrwythlon?
		1.1.2	I ba raddau mae angen cynyddu neu gryfhau'r mudau a'r rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol.
		1.1.3	I ba raddau mae angen annog rhwydweithiau eraill i'r ardal?
		1.1.4	I ba raddau mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith ardal?
		1.1.5	I ba raddau mae angen annog gweithgareddau eraill y cymdeithasol, i roi statws i'r Gymraeg a'i defnyddio?
1.2	Arweinwyr cymunedol a throsglwyddo gwerthoedd	1.2.1	I ba raddau mae arweinyddion Cymraeg eu hiaith yn wneud y canlynol? • Plant a phobl ifanc • Chwaraeon • Diwylliannol/diddordebau • Crefyddol
		1.2.2	I ba raddau mae arweinyddion cymunedol newydd yn cael eu hyrwyddu rhwydweithiau Cymraeg?
		1.2.3	Yn gyffredinol, i ba raddau y credwch fod pobl leol yn cymhellu i hyrwyddu'r Gymraeg?
		1.2.4	Yn gyffredinol, i ba raddau y credwch bod angen grymusu'r Gymraeg i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?

{Gweithredu'n gynhwysol}

Cynnwys pobl di-Gymraeg

Diben yr ymarferiad yma, wrth gwrs, yw hyrwyddo'r Gymraeg ac ymrymuso'r gymdogaeth Gymraeg leol. Mi fydd y gweithgareddau, o reidrwydd, yn canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg lleol – eu teuluoedd, eu mudiadau a'u diddordebau. Dyna'r holl ddiben.

Fodd bynnag, dydy hynny ddim yn golygu cau cymdogion a thrigolion lleol nad sy'n siarad Cymraeg o'r gweithgareddau. Mae angen cynnwys pawb – i raddau priodol – yng ngweithgareddau'r Grŵp:

- Mae cefnogaeth trigolion di-Gymraeg lleol yn bwysig.
- Mae angen esbonio ac addysgu newydd ddyfodiaid o arwyddocâd y Gymraeg.
- Mae angen sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr wella eu sgiliau Cymraeg a'u harfer nhw.
- Mae angen grymuso mudiadau Cymraeg lleol i fedru derbyn dysgwyr i'w plith.
- Mae angen achlysuron lle mae'r gymdogaeth Gymraeg leol yn medru estyn allan at y di-Gymraeg ar eu telerau eu hunain a rhoi cyfle iddyn nhw werthfawrogi'r diwylliant cysefin.

Bydd achos weithiau i siarad gyda chynrychiolwyr mudiadau Saesneg eu hiaith er mwyn adeiladu cynghreiriau. Efallai daw achos i ymgynghori'n lleol ar lefel y gymuned gyfan a bydd rhaid gwneud hynny'n ddwyieithog. Bydd angen hefyd, o dro i dro, ymrwymo partneriaid at dasgau penodol – mudiadau lleol ac asiantaethau sirol a rhanbarthol.

Rhaid ceisio cynnwys pawb sydd yn mynd o fod i fantais a chymorth i lwyddiant y gweithgareddau a'r weledigaeth.

Y Gymraeg, cydraddoldeb a chyfleoedd cyfartal

Wrth fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg, mae'n ddigon posibl y bydd rhai pobl wrthwynebus yn ceisio honni fod hyrwyddo'r Gymraeg yn gyfystyr ag amharu ar eu hawl i gyfle cyfartal fel siaradwyr Saesneg. Bydd rhai siaradwyr Cymraeg, yn yr un modd, yn medru honni fod ambell i sefyllfa gyfredol yn amharu ar eu hawliau hwythau i dderbyn cyfleoedd cyfartal fel siaradwyr Cymraeg. Mae hynny, yn aml, yn rhan o densiwn sefyllfa ddwyieithog.

Nid ychwanegu at densiynau ieithyddol yw bwriad yr ymarferiad hwn – ond eu lliniaru. Dyma ychydig o egwyddorion sylfaenol, felly, ar sut i ddygymod â haeriadau o'r fath. Beth am ddau ddiffiniad yn gyntaf?

- Cydraddoldeb: yr egwyddor sylfaenol fod pawb, o ba bynnag gefndir neu nodweddion cymdeithasol, gyfwerth â'i gilydd.
- Cyfle cyfartal: yr hawl i beidio cael eraill yn gwahaniaethu yn eich herbyn ar sail nodweddion personol neu gymdeithasol yng nghyswllt ceisio am swydd neu dderbyn gwasanaeth.

Dydy'r naill gysyniad na'r llall yn tanseilio hawl cymdogaeth Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gysefin (ac unig iaith) ei byw a'i bod.

O amgylch hynny rhaid cydnabod y cyd-destun cymdeithasol hanesyddol:

- Mai'r Gymraeg yw iaith draddodiadol a chysefin nifer helaeth iawn o gymdogaethau Cymru hyd heddiw.
- Bod y Gymraeg yn perthyn yn annatod i'w thiriogaeth hanesyddol.
- Fod y Saesneg wedi cael ei chyflwyno i Gymru fel iaith grym, statws a bri cyhyd a bod cysgod hynny yn parhau ar ein harferion ieithyddol a chymdeithasol hyd heddiw.
- Bod y Gymraeg wedi ei chau allan o beuoedd cyhoeddus tan yn gymharol ddiweddar.
- Unioni'r dafol hanesyddol o blaid y Gymraeg yn y pau cyhoeddus, felly, yw un o'r tasgau sy'n wynebu'r Grŵp Gweithredu yn lleol - ynghyd â'i grymuso yn y pau cymdogaethol traddodiadol.

Egwyddor greiddiol yw'r hawl, mewn byd delfrydol, sydd gan unrhyw un ddefnyddio pa iaith bynnag y caren nhw yn eu bywydau beunyddiol. Un o nodau Llywodraeth Cymru yw creu Cymru ddwyieithog lle gall pawb fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith fel maen nhw'n ei ddewis.

Mae'n werth gwahaniaethu yma, fodd bynnag, rhwng y pau cyhoeddus ar y naill law a'r peuoedd preifat a chymdogaethol ar y llall.

Mae defnydd iaith yn y peuoedd preifat a chymdogaethol yn ddibynnol ar werthoedd ac arferion yr unigolion eu hunain. Gall cyfeillion a chymdogion ddefnyddio pa bynnag iaith y caren nhw gyda'i gilydd. Mae hynny'n rhan o hawliau dynol cyffredin pawb. Mae cymdeithasu gydag eraill mewn grwpiau anffurfiol a mudiadau gwirfoddol hefyd yn dilyn yr un egwyddor – hawl i gymdeithasu yn iaith eich dewis. Mae hynny'n caniatáu grwpiau a chymdeithasau i gyfarfod yn y Gymraeg yn unig, yn y Saesneg yn unig neu'n ddwyieithog fel mynna'r aelodau.

Mae pethau'n newid, fodd bynnag, wrth symud i'r pau cyhoeddus. Yn y pau cyhoeddus dylai dwy iaith y gymuned gael parch a statws dyledus a dylai trefniadau fod mewn grym i ganiatáu aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn gyhoeddus. Fel rheol, nid oes cyfyngiad ar unigolion i ddefnyddio Saesneg – mae pawb yn eu deall. Yn hanesyddol, fodd bynnag, bu cyfyngiad ar siaradwyr Cymraeg, oherwydd statws hanesyddol isel y Gymraeg a'r ffaith nad oedd rhai aelodau o'r cyhoedd yn deall y Gymraeg. Rhaid oedd troi at y Saesneg. Ni ddylai hynny fod yn wir heddiw. Y dasg o ran cyfleoedd cyfartal felly yw hwyluso anallu'r unigolion hynny nad

sy'n deall Cymraeg i ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud yn gyhoeddus, a hynny er mwyn amddiffyn hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu dewis iaith ym mhob agwedd o'u bywydau.

Bydd datblygu strategaethau i wneud hynny mewn modd hwylus a didramgwydd – drwy gyfrwng offer cyfieithu ar y pryd, trefn o 'buddies' iaith, taflenni esboniadol ac ati – yn un o heriau pennaf y broses. Bydd rhaid meddwl yn fanwl am ddulliau effeithiol o gynnwys unigolion di-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg mewn gweithgareddau priodol wrth i'r Cynllun Gweithredu fynd rhagddo. Mae'n debygol y bydd ymdrechion i bontio a chymhathu'n ieithyddol a diwylliannol yn rhan o'r Cynllun Gweithredu hwnnw.

Yn y cyswllt hynny, mae'n debygol hefyd y gall diffyg hyder ac anghyneffindra rhai siaradwyr Cymraeg â dulliau pontio o'r fath hefyd fod greu heriau. Rhaid bod yn barod i ddelio gyda hynny hefyd gan eu cefnogi i liniaru eu pryderon hanesyddol.

Bod yn gynhwysol, felly, yw'r gair allweddol. Bwriad y cynllun yw hyrwyddo cynwysoldeb heb fod hynny'n digwydd ar draul y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn lleol.

{Monitro a gwerthuso}

8.1 Y Cylch Cynllunio

Mae'r broses hon wedi ei selio ar y Cylch Cynllunio pedwar pwynt clasurol:

- Ymchwilio
- Cynllunio
- Gweithredu
- Adolygu

Ymchwilio: Dyma'r camau cyntaf a ddisgrifiwyd uchod, sef creu'r Proffil Cefndirol – y proffil ystadegol, y cefndir polisi a'ch proffil o'r sefyllfa'n lleol.

Cynllunio: Dyma'r Asesiad ei hun – mapio a chloriannu'r sefyllfa ar sail y Fframwaith ynghyd â chynllunio tasgau ymarferol i'w cyflawni.

Gweithredu: Dyma'r cyfnod o fwrw ati – troi'r bwriadau'n ffaith.

Adolygu: Dyma'r cyfnod o fwrw llinyn mesur ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gweithredu ar ôl cyfnod o amser. Sut mae pethau'n mynd?

8.2 Adolygu


Mae'r cyfnod o Adolygu yn hanfodol ar gyfer sicrhau monitro a gwerthuso effeithiol ar eich cynllun.

Monitro

Monitro yw'r broses o cadw llygad cyson a pharhaus ar yr hyn sy'n digwydd:

- Ydy'r tasgau yn cael eu cyflawni?
- Ydy nhw'n dilyn yr amserlen a osodwyd?
- Ydy'r adnoddau priodol yn eu lle?
- Oes unrhyw anawsterau neu rwysterau wedi codi?
- Oes unrhyw risgiau wedi codi eu pennau sydd â goblygiadau ehangach?
- Oes angen addasu neu newid y dasg neu'r amserlen?

Gallwch wneud hynny mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Gweithredu, gan dderbyn gwybodaeth gan yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am weithredu tasgau penodol a chyd-drafod y camau nesaf?





Gwerthuso

Gwerthuso yw'r broses o fwrw llinyn mesur dros y prosiect cyfan ar adeg amserol – diwedd blwyddyn, dyweder:

- A lwyddwyd i gyflawni'r hyn a fwriadwyd?
- Pa mor llwyddiannus fu tasgau unigol?
- Pa mor llwyddiannus fu'r broses a'r trefniadau?
- Pa wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod?
- Beth fu'r canlyniadau? Pa newid a welwyd?

Ar sail y gwerthusiad efallai y byddwch eisiau addasu neu wella eich gweithredu mewn rhyw fodd neu'i gilydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Efallai ei bod hi'n amserol i chi ddechrau adeiladu ar rai o'r tasgau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn neu edrych eto ar dasgau eraill o'r newydd.

Mae hyn yn eich gwahodd i ail edrych ar y Proffil Cefndirol, ei ddiweddarau ac ail afael yn y Cylch Cynllunio.

8.3 Y cofnod electronig

Yn rhan o'r pecyn mae yna ffeil ar fformat MS Excel sy'n cynnwys fersiynau o'r Tabl Mapio a'r Tabl Cloriannu. Ceir copi o'r ffeil ar y cof bach a ddarperir gyda'r pecyn.

Mae bwriad y ffeil yma yn ddeublyg:

- rhoi adnodd i chi gofnodi eich Asesiad yn electronig mewn modd y gallwch ei drin yn ddadansoddol a bo angen drwy rhoi'r rhif 1 yn y blychau yn lle tic; a
- hwyluso proses o gasglu data cymharol ar raddfa sirol, ranbarthol neu genedlaethol.

Mae'n bosibl y bydd eich Menter Iaith leol neu asiant arall yn eich holi am gopi o'r Cofnod Electronig er mwyn adeiladu cronfa ddata ranbarthol a chenedlaethol a all fod yn sail i ymchwil a gweithredu pellach. Hyderir y caiff y Fenter Iaith neu asiantau cymwys eraill eich cydweithrediad yn hyn o beth.

Pob hwyl i chi ar weithredu'r Fframwaith. Hyderwn y bydd yn arf defnyddiol wrth i chi fynd ati i ymrymuso a chryfhau ein cymdogaethau Cymraeg drwy weithredu'n lleol.

Elfennau	Nodweddion				
1.1 Ystod y cyfleoedd	1.1.1	Oes digon o amrywiaeth o gyfleoedd creadigol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal sy'n cynnal y profiad o berthyn i gymdogaeth fywiog?			
		• Plant			
		• Pobl ifanc			
		• Oedolion			
		• Teuluoedd			
		• Henoed			
	1.1.2	I ba raddau ceir presenoldeb mudiadau a sefydliadau Cymraeg traddodiadol yn yr ardal sy'n cynnal y rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol?			
		• Cylch Ti a Fi			
		• Cylch Meithrin			
		• Adran yr Urdd			
		• Aelwyd yr Urdd			
		• Clwb Ffermwyr Ifanc			
		• Merched y Wawr			
		• Capeli ac Eglwysi Cymraeg			
		• Ysgol(ion) Sul Cymraeg			
		• Papur bro – a gohebwy'r lleol			
		• Eisteddfod leol			
		• Cymdeithasau diwylliadol			
	1.1.3	I ba raddau mae rhwydweithiau eraill yn rhoi statws uchel i'r Gymraeg a'i defnyddio?			
		• Cymdeithas(au) Rhieni ac Athrawon			
		• Cyrff Llywodraethol Ysgolion			
		• Cyngorau Tref a Chymuned			
		• Pwyllgorau neuaddau pentref a lles cymunedol			
		• Clybiau chwaraeon			
		• Clybiau hamdden/diddordeb			
		• Sioeau amaethyddol			
		• Dosbarthiadau nos			

	Elfennau		Nodweddion				
1.1	Ystod y cyfleoedd	1.1.1	I ba raddau mae angen cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd creadigol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal sy'n cynnal y profiad o berthyn i gymdogaeth fywiog?				
		1.1.2	I ba raddau mae angen cynyddu neu gryfhau'r mudiadau a sefydliadau Cymraeg traddodiadol yn yr ardal sy'n cynnal y rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol.				
		1.1.3	I ba raddau mae angen annog rhwydweithiau eraill i roi statws uwch i'r Gymraeg a'i defnyddio?				
		1.1.4	I ba raddau mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith naturiol cyfarfodydd a gweithgareddau cyhoeddus yn yr ardal?				
		1.1.5	I ba raddau mae angen annog gweithgareddau eraill yn yr ardal, sy'n ymateb i ddiddordebau newydd a newid cymdeithasol, i roi statws i'r Gymraeg a'i defnyddio?				
1.2	Arweinwyr cymunedol a throsglwyddo gwerthoedd	1.2.1	I ba raddau mae arweinyddion Cymraeg eu hiaith yn weithgar ym mhob agwedd o fywyd a gwaith y gymuned?				
			• Plant a phobl ifanc				
			• Chwaraeon				
			• Diwylliannol/diddordebau				
			• Crefyddol				
		1.2.2	I ba raddau mae arweinyddion cymunedol newydd yn cael eu hadnabod a'u hannog i gyfrannu i barhad y rhwydweithiau Cymraeg?				
		1.2.3	Yn gyffredinol, i ba raddau y credwch fod pobl leol yn cymryd camau i sicrhau lles y Gymraeg o fewn eu cymuned?				
		1.2.4	Yn gyffredinol, i ba raddau y credwch bod angen grymuso pobl leol o ran eu gwerthoedd, gwybodaeth, sgiliau a hyder i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?				

{ Agwedd 1: Bwrlwm Cymdeithasol a Diwylliannol: (c) Taflen weithredu }

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

	Elfennau		Nodweddion				
2.1	Trosglwyddo iaith yn y cartref	2.1.1	Beth yw graddfa'r gyfradd trosglwyddo iaith yn yr ardal?				
		2.1.2	Ydy Cynllun Twf yn weithredol yn yr ardal – naill ai drwy Swyddog Maes Twf neu drwy fydwagedd a'r ymwelwyr iechyd lleol yn hyrwyddo manteision cyflwyno'r Gymraeg o'r crud?				
		2.1.3	Oes digon o weithgareddau cefnogol i rieni yn digwydd yn yr ardal neu o fewn cyrraedd? E.e. Amser Twf, Cymraeg i'r Teulu, Cymraeg o'r Crud, Grwpiau cyn geni neu ôl eni y fydwraig lleol				
		2.1.4	Oes digon o ddigwyddiadau addas ar gyfer teuluoedd ifanc yn cael eu cynnal yn yr ardal?				
2.2	Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar	2.2.1	I ba raddau mae'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar canlynol ar gael i drigolion yr ardal yn y Gymraeg?				
			• Darpariaeth meithrin yr ysgol neu ysgolion lleol				
			• Cylch Meithrin				
			• Cylch Ti a Fi				
			• Meithrinfeydd preifat				
			• Gwarchodwyr plant				
			• Canolfan integredig				

{ Nodiadau }

	Elfennau		Nodweddion				
2.1	Trosglwyddo iaith yn y cartref	2.1.1	I ba raddau mae teuluoedd yn llwyddo i drosglwyddo'r iaith yn y cartref?				
		2.1.2	I ba raddau mae yna gefnogaeth i'w gael i rieni i siarad Cymraeg gyda'u plant yn y cartref?				
		2.1.3	I ba raddau mae yna gyfleoedd addas i deuluoedd ifanc ddefnyddio eu Cymraeg o fewn y gymdogaeth?				
		2.1.4	I ba raddau mae'r ysgol(ion) leol yn cefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant?				
2.2	Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar	2.2.1	I ba raddau yna gyfleoedd i bob plentyn dderbyn gwasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg?				
		2.2.2	Oes digon o wasanaethau gofal a gwarchod plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i deuluoedd yr ardal?				

{ Nodiadau }

{ Agwedd 2: Trosglwyddo Iaith a'r Blynyddoedd Cynnar: (c) Taflen weithredu }

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

	Elfennau		Nodweddion				
3.1	Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg	3.1.1	I ba raddau mae plant dan 12 oed yr ardal yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg?				
		3.1.2	I ba raddau mae rhieni plant dan 12 oed yr ardal yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant?				
		3.1.3	I ba raddau mae pobl ifanc dan 16 oed yr ardal yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg?				
		3.1.4	I ba raddau mae pobl ifanc dan 16 oed yr ardal a'u rhieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg?				
		3.1.5	I ba raddau mae pobl ifanc dan 19 oed yr ardal yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg?				
		3.1.6	I ba raddau mae pobl ifanc dan 19 oed yr ardal yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg?				
3.2	Ysgol(ion) Cynradd	3.2.1	I ba raddau mae'r ysgol(ion) lleol: • yn destun balchder a pharch yn lleol? • yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith addysg a chyfathrebu? • yn meithrin ymwybyddiaeth o berthyn a chyfrifoldeb at y gymdogaeth a'r Gymraeg ymysg disgyblion? • yn cynnig ystod o gyfleoedd allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn gyson? • yn hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd y gymdogaeth Gymraeg, drwy gynnal digwyddiadau diwylliannol, e.e, eisteddfodau, cyngherddau, digwyddiadau dathlu, gwasanaethau ac ati? • yn llwyddo i gynnal y Gymraeg fel iaith y buarth?				
3.3	Ysgol(ion) Uwchradd	3.3.1	I ba raddau mae ysgol(ion) uwchradd yr ardal yn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil allweddol ym myd gwaith drwy baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith dwyieithog?				
		3.3.2	I ba raddau mae ysgol(ion) uwchradd yr ardal yn cynnig ystod o gyfleoedd allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn gyson?				
		3.3.3	I ba raddau mae ysgol(ion) uwchradd yr ardal yn llwyddo i gynnal y Gymraeg fel iaith y buarth?				
3.4	Addysg Anffurfiol	3.4.1	I ba raddau mae yna ddarpariaeth eang o addysg gymunedol a diwylliannol sy'n hybu perchnogaeth a chyfranogaeth leol drwy'r C.Ff.I., Aelwydydd, corau, cymdeithasau drama ac ati?				
		3.4.2	I ba raddau mae yna ddarpariaeth dosbarthiadau nos cyfrwng Cymraeg yn yr ardal?				

	Elfennau		Nodweddion				
3.1	Addysg Ffurfiol	3.1.1	I ba raddau mae angen datblygu a chryfhau'r dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o un Cyfnod Allweddol i'r nesaf?				
		3.1.2	I ba raddau mae angen annog plant a rhieni i gymryd y cyfleoedd sydd ar gael i dderbyn addysg Gymraeg?				
		3.1.3	I ba raddau mae angen ysgogi ysgolion yr ardal i ddatblygu a hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg o fewn gweithgareddau a bywyd beunyddiol yr ysgol?				
3.2	Addysg Anffurfiol	3.2.1	I ba raddau mae angen datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth addysg gymunedol anffurfiol yn yr ardal?				

{ Nodiadau }

{ Agwedd 3: Addysg Ffurfiol ac Anffurfiol: (c) Taflen weithredu }

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

	Elfennau		Nodweddion				
4.1	Demograffeg	4.1.1	Beth yw'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal?				
		4.1.2	Beth yw'r ganran o'r boblogaeth leol a anwyd yng Nghymru?				
4.2	Cymhathu mewnfudwyr	4.2.1	I ba raddau mae yna weithgareddau ac adnoddau wedi eu sefydlu o fewn y rhwydweithiau Cymraeg lleol i addysgu a chodi ymwybyddiaeth mewnfudwyr o gefndir ieithyddol a diwylliannol yr ardal?				
		4.2.2	I ba raddau mae rhwydweithiau Cymraeg yr ardal yn ddigon hyderus a medrus i dderbyn dysgwyr i'w plith heb newid eu cyfrwng iaith? E.e. drwy ddefnyddio offer CAYP, penodi 'buddies' iaith, rhannu taflenni esboniadol dwyieithog i ddysgwyr.				
		4.2.3	I ba raddau mae teuluoedd sy'n symud i'r ardal yn medru tynnu ar wasanaeth Canolfan Iaith i newydd ddyfodiaid?				
4.3	Cymraeg i Oedolion	4.3.1	I ba raddau mae dysgwyr yn medru cael mynediad i ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion?				
		4.3.2	Oes digon o amrywiaeth o ddosbarthiadau i ddysgwyr yn lleol o ran natur a lefel?				
		4.3.3	Oes digon o gyfleoedd yn lleol i ddysgwyr arfer ac arddel eu Cymraeg?				
4.4	Lliniaru allfudo	4.4.1	I ba raddau mae yna ddigon o dai rhent neu tai fforddiadwy i'w prynu ar gyfer pobl ifanc lleol?				
		4.4.2	I ba raddau mae yna rhwydweithiau a chyfleoedd cymdeithasol deniadol a bywiog i bobl ifanc o fewn cyrraedd i'r ardal?				
		4.4.3	I ba raddau mae yna ystod digonol o gyfleoedd gwaith o fewn pellter hwylus i'r ardal leol?				

{ Nodiadau }

	Elfennau		Nodweddion				
4.1	Demograffeg	4.1.1	I ba raddau mae polisïau tai lleol a'r farchnad dai yn lleol yn llwyddo i gynnal y ddemograffeg leol o blaid y Gymraeg?				
4.2	Cymhathu mewnfudwyr	4.2.1	I ba raddau mae yna angen datblygu strategaethau priodol i gymhathu mewnfudwyr i'r gymdogaeth Gymraeg yn lleol?				
4.3	Cymraeg i Oedolion	4.3.1	I ba raddau mae angen datblygu ystod o gyfleoedd i ddysgwyr y Gymraeg yn yr ardal – o ran gwersi a chyfleoedd i ymarfer?				
4.4	Lliniaru allfudo	4.4.1	I ba raddau mae yna angen cynllunio ar gyfer lliniaru allfudo o'r ardal o ran sicrhau tai fforddiadwy, cyfleoedd gwaith a chyfleoedd cymdeithasol?				

{ Nodiadau }

{ Agwedd 4: Demograffeg y Gymraeg: (c) Taflen weithredu }

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

	Elfennau		Nodweddion				
5.1	Tai a chynllunio	5.1.1	Ydy'r stoc tai lleol yn ddigon amrywiol i anghenion yr ardal?				
		5.1.2	Ydy polisïau cynllunio lleol yn ddigon cadarn o blaid y Gymraeg?				
		5.1.3	Ydy'r Cyngor Cymuned lleol yn ddigon effro i anghenion y Gymraeg o fewn y cyd-destun cynllunio defnydd tir?				
5.2	Busnesau lleol	5.2.1	Oes digon o amrywiaeth o fusnesau yn cynnig gwasanaethau i'r gymdogaeth leol? E.e. siop, tafarn, garej, Swyddfa'r Post ac ati.				
		5.2.2	Ydy'r Gymraeg yn cael defnydd gweledol digonol o fewn busnesau'r ardal?				
		5.2.3	Oes gwerth digonol yn cael ei roi ar y Gymraeg (gan gynnwys sgiliau dwyieithog ar gyfer y gwaith) gan fusnesau'r ardal?				
		5.2.4	Oes cyfran digonol o staff busnesau lleol yn siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth i'r gymdogaeth?				
		5.2.5	Ydy pobl leol yn cefnogi busnesau lleol yn ddigonol?				
		5.2.6	Ydy siaradwyr Cymraeg yn sefydlu ac yn cynnal busnesau eu hunain ac yn cynnig cyfleoedd gwaith lleol?				
		5.2.7	Oes mentrau newydd yn cael ei sefydlu'n lleol gyda'r Gymraeg yn greiddiol i bob agwedd?				
5.3	Cyfleusterau Cymdeithasol	5.3.1	Oes digon o gyfleusterau cymdeithasol addas ar gyfer anghenion y gymdogaeth?				
		5.3.2	Ydy'r adeiladau sydd ar gael yn ddigon cyfforddus a deniadol at ofynion cyfoes?				
		5.3.3	Ydy'r Gymraeg yn derbyn statws digonol o fewn cyfleusterau cyhoeddus lleol?				
		5.3.4	Oes digon o gyfleusterau hamdden a chwaraeon o fewn cyrraedd hwylus?				
5.4	Gwasanaethau cyhoeddus	5.4.1	I ba raddau mae gwasanaethau iechyd a gofal lleol yn cael eu darparu yn y Gymraeg? E.e. cymorth yn y cartref, nyr-sys bro.				
		5.4.2	I ba raddau mae'r feddygfa leol yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg?				

5.5	Datblygiadau technolegol	5.5.1	Ydy band llydan yn weithredol yn yr ardal ac ar gyflymder priodol?				
		5.5.2	Ydy mudiadau Cymraeg lleol yn adnabod potensial y We ac yn ei ddefnyddio?				
		5.5.3	Ydy gwefannau lleol yn adlewyrchu natur ieithyddol a diwylliannol y gymdogaeth?				
		5.5.4	Ydy busnesau lleol yn defnyddio'r Gymraeg ar y We i hysbysebu a marchnata?				
		5.5.5	Ydy siaradwyr Cymraeg lleol yn gyfarwydd â meddalwedd Cymraeg ac yn ei ddefnyddio adref ac yn y gwaith?				
5.6	Yr Amgylchedd	5.6.1	Oes yna ymdeimlad o falchder a pharch at yr amgylchedd yn lleol ac ymdrechion digonol i'w ddiogelu, ei harddu a'i ddathlu?				
		5.6.2	Oes ymdeimlad o falchder yn y dreftadaeth naturiol a diwylliannol lleol?				
5.7	Gallu lleol	5.7.1	I ba raddau mae aelodau'r gymdogaeth yn ddigon gwybodus a galluog o ran meysydd allweddol datblygu cymunedol, megis cynllunio iaith, arweinyddiaeth, mentergarwch, trefniadaeth, diogelu plant ac ati?				
		5.7.2	I ba raddau mae gan y gymdogaeth yr wybodaeth a'r sgiliau i ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd a chanfod cyllid i'w cynnal?				

{ Nodiadau }

	Elfennau		Nodweddion				
5.1	Tai a chynllunio	5.1.1	Oes unrhyw wendidau sylfaenol yn y sefyllfa tai lleol sydd angen gweithredu yn eu cylch?				
		5.1.2	Oes unrhyw fater llosg neu brys yn codi ar hyn o bryd y dylid codi ymwybyddiaeth yn ei gylch?				
5.2	Busnesau lleol	5.2.1	Oes angen gwella gwasanaethau a busnesau lleol i'r gymuned?				
		5.2.2	Oes angen codi gwerth a statws y Gymraeg o fewn busnesau lleol a'r defnydd a wneir ohoni?				
		5.2.3	Oes angen gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn yr ardal?				
5.3	Cyfleusterau Cymdeithasol	5.3.1	Oes angen gwella ansawdd cyfleusterau cymdeithasol y gymdogaeth neu greu cyfleusterau newydd?				
		5.3.2	Oes angen codi statws y Gymraeg o fewn cyfleusterau cyhoeddus lleol a'r defnydd a wneir ohoni?				
5.4	Gwasanaethau cyhoeddus	5.4.1	Oes angen gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yng nghyswllt iechyd a gofal?				
5.5	Datblygiadau technolegol	5.5.1	Oes angen gwella'r mynediad i'r band llydan yn lleol?				
		5.5.2	Oes angen codi ymwybyddiaeth a gallu unigolion, mudiadau a busnesau Cymraeg o bosibiliadau'r We a thechnoleg fodern o ran y Gymraeg?				
5.6	Yr Amgylchedd	5.6.1	Oes angen cynyddu balchder a pharch y gymdogaeth at yr amgylchedd a'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol yn lleol?				
5.7	Gallu lleol	5.7.1	I ba raddau mae angen addysg, hyfforddiant a chefnogaeth ar aelodau'r gymdogaeth mewn agweddau o ddatblygu cymunedol?				

{ Nodiadau }

{ Agwedd 5: Yr Economi, Gwasanaethau ac Is-adeiledd: (c) Taflen weithredu }


Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen

Gweithred/Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Adnoddau
Canlyniadau Dymunol	Partneriaid	Amserlen



Gweler y dogfennau ategol ar “www.cymru.gov.uk/lleol”

- 
- Gweithredu'n Lleol - Testun Cymraeg
 - Y Fframwaith
 - Cofnod Electronig Sengl
 - Cofnod Electronig Gyfansawdd
 - Local Action - English Text
 - The Framework



Llywodraeth Cymru
Welsh Government